CYNGOR CYMUNED EGLWYSWRW COMMUNITY COUNCIL.

Cynhalwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, Nos Fawrth 5ed o Rhagfyr 2017 yn yr Hen Ysgol Eglwyswrw gan gychwyn am 8.00y.h.

Presennol

Cadeirydd: Robin Phillips

Cynghorwyr: Enid Cole, Ceirwyn John, Llinos Davies, Sarah –Jane Absalom, Lon Davies

Cynghorydd Sir: Cyng Cris Tomos

Clerc: Helen Evans

Croeso'r Cadeirydd:

Croesawodd y cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Estynnwyd llongyfarchiadau i Arwel ac Elsie ar ei dyweddiad yn ddiweddar.

Ymddiheiriadau:- Arwel Evans, Ieuan Davies

Cofnodion 07.11.17

Cynigodd Lon Davies ac eiliodd Ceirwyn John fod y cofnodion yn gywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

Materion yn codi o'r cofnodion

73. Coeden Nadolig – Yn dilyn asesiad risg a Prawf Pat ar y goleuadau mae'r goeden Nadolig yn ei lle. Diolchodd Sarah Jane I Ceirwyn am ddod ar teiar ac I Helen am drefnu Yswiraint.

74. Deffibrilitiwr – Gan fod y Deffibrilitiwr yn ei lle fe gododd Lon Davies a oes eisiau code I agor y bocs. Cyng. Sarah Jane I gysylltu gyda Peter Clarke Hwlffordd.

75. Diolchodd Lon Davies ar rhan Pwyllgor Brynberian am y siec o £100.

Gohebiaeth

76. Newidiadau yn eich casgliad gwastreff dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd – Fe dosbarthwyd y wybodaeth I pawb ac fe fydd copi o'r hysbysiad yn yr hysbysfwrdd.

77. Cyfanswm yn y Banc 25.11.17 - £3,189.66

78. Cyngor Sir Benfro – Gwybodaeth cais Cynllunio Pengelli, Eglwyswrw – Hysbysiad ar gyfer Sied Amaethyddol ar gyfer storio bwyd , gwellt a peiriannau ac hefyd ei ddefnyddion yn ystod amser wyna.

79. Cyngor Sir Benfro – Ailgylchu mwy dros Sir Benfro – Cyfle I ddweud eich dweud a gweld esiampl o'r bagiau a'r blychau newydd a rhoi adborth. Gwahanol cyfarfodydd yn y Sir. Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb.

80. Cyngor Sir Benfro Cynllun Datblygu Lleol – Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb.

81. GIG Cymru Rhwydwaith Trauma Mawr I Dde a Gorllewin Cymru a De Powys – Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb. Fe fyddwn yn ail edrych ar y wybodaeth yma yn y cyfarfod nesaf.

82. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro diweddara ar y Cynllun Datblygu Lleol - Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb.

Unrhyw Fater Arall

83. Llythyr wrth Dave a Gaynor Jenkins, Cross House, Eglwyswrw – Llythyr ynglyn a'r gwaith sydd wedi cael ei wneud ar y palmant a'I pryder hwy: Diffyg cyfathrebu rhwng Cwmni Atkins a hwy, Gweithwyr ar y safle, danc Olew a straen yn gyfan gwbwl. Fe fydd y Cyng. Cris Tomos yn edrych I mewn i'r sefyllfa hwn ac yn cysylltu gyda Teulu Cross House.

84. Fe ddwedodd Llinos Davies ynglyn a "culverts" wedi blocio yn Brynberian yn ystod y llifogydd annisgwyl yn ystod Mis Tachwedd. Hefyd ynglyn a'r dwr sydd yn dod oddi ar y ffordd ac yn mynd I fewn I Brynhyfryd, Brynberian. Llinos Davies wedi bod mewn cysylltiad gyda Cyngor Sir Benfro. Fe fydd y cyng Cris Tomos yn edrych I mewn I'r sefyllfa hefyd.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 6ed o Chwefror am 8.00y.h.

Terfynwyd y Cyfarfod am 9.10y.h.